



## Amcan Llesiant 12

Amgylchedd Iach a Diogel - Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol

### Rydym yn gwella ein hamgylchedd drwy wella bioamrywiaeth a defnyddio ynni adnewyddadwy yn ein hadeiladau


Rydym wedi cyflawni prosiectau cynaliadwy sy'n diogelu ein hamgylchedd ac yn ei wella. Mae'r cynefin a reolir ar gyfer britheg y gors a 300 hectar o warchodfeydd natur lleol ill dau yn brosiectau sy'n cyfrannu at gynaliadwyedd a bioamrywiaeth. Mae technoleg ynni adnewyddadwy yn cael ei defnyddio mwyfwy yn ein hadeiladau ac mae'n rhan annatod o'n holl adeiladau newydd, wrth i'r Awdurdod anelu at fod yn 'Garbon Niwtral' erbyn 2030. Mae ein Cynllun Rheoli Llifogydd a'r Cynllun Rheoli Traethlin yn caniatáu i'r Awdurdod gyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy wneud Cymru'n fwy *cydnerth*, ac, yn sgil hynny, yn fwy *llewyrchus*. Fodd bynnag mae cyrraedd targedau ailgylchu wedi bod yn hynod heriol eleni.


### Pam y mae hyn yn bwysig

- Mae'r *Amgylchedd Naturiol* yn elfen greiddiol o ddatblygu cynaliadwy. Mae Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymestyn y ddyletswydd sydd ar gyrff cyhoeddus *i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chynyddu cryfder ecosystemau*.
- Mae amgylchedd naturiol bioamrywiol, gydag ecosystemau iach, yn helpu gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol. Amgylchedd naturiol Sir Gaerfyrddin yw'r adnodd naturiol y mae rhan helaeth o'n heconomi wedi ei seilio arni – twristiaeth, ffermio, coedwigaeth, ac ynni adnewyddadwy. Mae'n ffactor o bwys sy'n denu pobl, ifanc a hŷn, i fyw, gweithio ac ymweld â'n sir, gan ddod â buddsoddiad o'r tu allan gyda hwy.
- Roedd yr arolwg Asesiad Anghenion Llesiant wedi clustnodi perthynas gref rhwng llesiant pobl a'r amgylchedd o'u hamgylch, o ddarparu cyfleoedd hamdden, i ymdeimlad cadarnhaol seicolegol, buddion iechyd a chysylltiad â threftadaeth a diwylliant.

### Mesurau Llwyddiant



  
Cynhyrchwyd **979,071**  
**kWh** o ynni adnewyddadwy  
gennym yn ystod 2018/19  
(wedi cynyddu o 937,330 kWh  
y flwyddyn flaenorol)

  
Ein cyfradd ailgylchu yw

**58.94%**

(Mae hyn yn llai na ffigur y  
flwyddyn flaenorol o 63.64%,  
ond rydym yn parhau i  
gyrraedd ein targed)



### Egluro'r Canlyniadau

- **Ynni adnewyddadwy** – Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein systemau solar ffotofoltäig ar ein hadeiladau annomestig â chyfanswm capasiti gosodedig o 1.15 MWp. Mae hyn wedi creu dros 979,071 kWh (dros dro) o Drydan yn ystod 2018/19, sef cynnydd o 4.5% ar y flwyddyn flaenorol pan oedd y ffigur yn 937,330 kWh.
- **Ailgylchu** wedi gostwng yn 2018/19 i 58.94% o 63.64% y flwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiad yn bennaf o achos anawsterau â marchnadoedd allforio ar gyfer gwastraff gweddilliol (allfeydd tanwydd sy'n deillio o sbwriel). Fodd bynnag, rydym wedi cyrraedd y targed statudol o 58%.

## Y cynnydd a wnaed

- ⦿ Mae'r prosiect yn parhau i reoli 24 o safleoedd sy'n darparu 40.46 hectar o gynefin sydd mewn cyflwr addas ar gyfer britheg y gors. Dengys canlyniadau arolygon yn haf 2018 fod nifer y gweoedd larfa a gofnodwyd yn eithriadol o uchel eleni a bod 86 o weoedd wedi'u cofnodi ar un safle. Canfu arolygon cynefinoedd gofnodion newydd o fritheg y gors mewn 31 o gaeau, ar draws yr ardal, gan ehangu ein gwybodaeth am y glöyn byw yn y rhan hon o'r sir, a bydd y gwaith hwn yn llywio'r Cynllun Datblygu Lleol newydd a'r adolygiad o Ganllawiau Cynllunio Atodol Caeau Mynydd Mawr. Mae'r prosiect yn parhau i sicrhau bod y tir yn cael ei bori'n briodol mewn cytundebau rheoli, gan gynorthwyo tiffeddianwyr yn aml i ddod o hyd i anifeiliaid pori addas. Mae hefyd wedi bod yn gwneud defnydd o gynllun grantiau bach Glas Tir, lle bo'n bosibl, ar gyfer rheoli perthi.
- ⦿ Mae gan y Cyngor raglen adeiladu newydd helaeth. Mae pob prosiect adeiladu mawr newydd yn cynnwys technolegau ynni adnewyddadwy lle bo hynny'n briodol, gyda gosodiadau solar ffotofoltäig yn rhan o lawer o brosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif y Ddarpariaeth Moderneiddio Addysg yn ddiweddar.
- ⦿ Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r holl brosiectau annomestig sy'n derbyn elfen o gyllid Llywodraeth Cymru gyrraedd safon 'Rhagorol' o ran BREEAM (dull asesu amgylcheddol y sefydliad ymchwil adeiladu), y mae rhan ohoni'n gysylltiedig â dylunio adeiladau i leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon.
- ⦿ Rydym wedi cwblhau ein Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd i ddiogelu cartrefi ac eiddo yng Nghymru.

Derbyniodd **Prosiect Britheg y Gors Caeau Mynydd Mawr** wobwr yn y categori '*Cynllunio yn yr Amgylchedd Naturiol*' yng Ngwobrau Cenedlaethol y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) ar gyfer Rhagoriaeth mewn Cynllunio.



Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol  
dros Ddiogelu'r Cyhoedd:  
Y Cynghorydd Philip Hughes



Cliciwch yma i gael gweld ein  
[cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.